Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Canllaw Cyflym i'r Rheoliadau Adeiladu



# Cynnyws


**Adran 1: Cyflwyniad Cyffredinol** 3

**Adran 2: Rheoliadau Adeiladu** 4

- Beth yw diben Rheoliadau Adeiladu 4
- Yr hyn y mae angen ichi ei wneud 4
- Y 'Gofynion' yn y Rheoliadau Adeiladu 5
- Y Dogfennau Cymeradwy 6
- Ceisio Cyngor a Dewis Eich Adeiladwr 8

**Adran 3: Sut mae'r Rheoliadau Adeiladu yn gweithio'n ymarferol** 9

- Beth yw 'gwaith adeiladu' yn ôl Rheoliadau Adeiladu? 9
- Pwyntiau i wylio amdanynt ar y safle y byddwch yn adeiladu arno: draeniau, radon a sylweddau halogedig 10
- A yw'n ofynnol imi ymgynghori â fy nghymdogion ynghylch fy ngwaith adeiladu arfaethedig? 11
- Os nad yw'r Rheoliadau Adeiladu'n berthnasol: peryglon i wylio amdanynt 11

**Adran 4: A fydd y Rheoliadau Adeiladu yn berthnasol i'r gwaith rwyf am ei wneud?** 13

**Adran 5: Y ddau fath o Wasanaeth Rheoli Adeiladu** 14

- Gwasanaeth Rheoli Adeiladu eich Awdurdod Lleol 15
- Gwasanaeth Rheoli Adeiladu Arolygydd Cymeradwy 19

**Adran 6: Achosion o dorri'r Rheoliadau Adeiladu a chamau gorfodi** 21

- Beth sy'n digwydd os byddaf yn torri'r Rheoliadau Adeiladu? 21
- Beth sy'n digwydd os rwy'n anghytuno â Hysbysiad Gorfodi'r Awdurdod Lleol? 22
- Sut y gallaf fynd ati i wirio a yw gwaith adeiladu anawdurdodedig yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu? 23

**Atodiad A: Enghreifftiau o adeiladau sydd wedi'u heithrio rhag rheolaeth o dan y Rheoliadau** 24

**Atodiad B: Ffynonellau gwybodaeth** 27



OGL © Hawlfraint y Goron 2026, Llywodraeth Cymru, WG54911,


ISBN digidol 978-1-80853-075-3


Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Adran 1: Cyflwyniad Cyffredinol

1.1 Mae'r canllaw hwn yn rhoi cyflwyniad i'r Rheoliadau Adeiladu yng Nghymru, ac mae ar gyfer unrhyw un sy'n bwriadu cynnal prosiectau adeiladu. Ni fwriedir iddo fod yn ddatganiad o'r gyfraith, yn hytrach ei fwriad yw eich helpu i ddeall y system rheoli adeiladu a'r Rheoliadau Adeiladu.

1.2 I'ch helpu i ddeall mwy am y pynciau y cyfeirir atynt yn y canllaw, rhestrir ffynonellau cymorth a gwybodaeth – gan gynnwys dogfennau, cyhoeddiadau a chyfeiriadau sefydliadau – yn Atodiad B yng nghefn y ddogfen, neu gellir eu gweld drwy glicio ar y geiriau mewn testun glas wedi'i danlinellu.

**NODER:** Mae'r testun glas wedi'i danlinellu sy'n ymwneud â deddfwriaeth rheoliadau adeiladu yn ddolenni i legislation.gov.uk. Cyn ymgymryd ag unrhyw brosiect, rhaid ichi sicrhau eich bod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ddiweddaraf (mae'n bosibl nad yw'r dolenni a roddir yn mynd at y ddeddfwriaeth hon). Os ydych yn ansicr, dylech gysylltu â darparwr eich Gwasanaeth Rheoli Adeiladu neu ofyn am gyngor proffesiynol.

1.3 Dim ond â'r Rheoliadau Adeiladu y mae'r canllaw yn ymdrin. Mae'n bosibl y bydd y gwaith sy'n gysylltiedig â'ch prosiect yn ddarostyngedig i ofynion statudol eraill megis caniatâd cynllunio, rheoliadau diogelwch tân o dan Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005, rheoliadau dŵr, trwyddedu/cofrestru, Deddf Waliau Cydrannol 1996 ac ati (Gweler Atodiad B: 'Ffynonellau gwybodaeth').

1.4 Dylech gofio'n benodol bod cydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu yn fater ar wahân i gael caniatâd cynllunio ar gyfer eich gwaith. Yn yr un modd, nid yw derbyn unrhyw ganiatâd cynllunio a all fod ei angen ar eich gwaith yr un peth â chymryd camau i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu. Mae canllawiau eraill ar gael am y system gynllunio yn gyffredinol a sut i fynd ati i gael caniatâd cynllunio, lle bo angen, ar wefan Llywodraeth Cymru.



# Adran 2: Rheoliadau Adeiladu

## Beth yw diben Rheoliadau Adeiladu

2.1 Mae'r Rheoliadau Adeiladu yn cael eu gwneud o dan bwerau a ddarperir yn Neddf Adeiladu 1984, ac maent yn berthnasol yng Nghymru. Y fersiwn gyfredol o'r brif set o reoliadau yw 'Rheoliadau Adeiladu 2010' (fel y'u diwygiwyd[1]) ac mae'n ofynnol i'r rhan fwyaf o brosiectau adeiladu gydymffurfio â nhw. Maent yn bodoli i sicrhau iechyd a diogelwch pobl ym mhob math o adeiladau ac yn eu cyffiniau (h.y. domestig, masnachol a diwydiannol). Maent hefyd yn pennu safonau ar gyfer defnyddio dŵr ac ynni, hygyrchedd, diogelwch a mynediad at sianeli cyfathrebu electronig cyflym iawn.

2.2 Mae'r Rheoliadau Adeiladu yn cynnwys amryw adrannau sy'n ymdrin â diffiniadau, gweithdrefnau a'r hyn a ddisgwylir gan waith adeiladu o ran perfformiad technegol. Er enghraifft, maent yn:

- diffinio pa fathau o brosiectau adeiladu, plymio a gwresogi sy'n cael eu hystyried yn 'Waith Adeiladu', ac yn gwneud y rhain yn ddarostyngedig i gael eu rheoli o dan y Rheoliadau Adeiladu (gweler paragraffau 3.1-3.2);
- nodi pa fathau o adeiladau sy'n cael eu hesemptio rhag cael eu rheoli o dan y Rheoliadau Adeiladu (mae Atodiad A yn rhoi enghreifftiau o'r mathau mwy cyffredin o adeiladau sy'n cael eu hesemptio);
- nodi'r gweithdrefnau hysbysu i'w dilyn wrth ddechrau, gwneud a chwblhau gwaith adeiladu; a
- nodi'r 'gofynion' swyddogaethol a thechnegol y mae'n rhaid i'r agweddau unigol ar ddylunio ac adeiladu adeiladau gydymffurfio â nhw er mwyn iechyd a diogelwch defnyddwyr adeiladau, defnyddio dŵr ac ynni, mynediad i adeiladau a defnyddio adeiladau a'u cyfleusterau (gweler paragraffau 2.5 a 2.6).

## Yr hyn y mae angen ichi ei wneud

2.3 Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i unrhyw un sydd am wneud gwaith adeiladu sy'n ddarostyngedig i'r Rheoliadau Adeiladu sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r Rheoliadau ac (gyda rhai eithriadau – gweler paragraff 5.2), i ddefnyddio un o'r ddau fath o Wasanaeth Rheoli Adeiladu sydd ar gael h.y.:

- y Gwasanaeth Rheoli Adeiladu a ddarperir gan eich awdurdod lleol (gweler paragraffau 5.6-5.23); neu
- Gwasanaeth Rheoli Adeiladu a ddarperir gan cymeradwywr cofrestredig rheolaeth adeiladu (gweler paragraffau 5.24-5.30).

1 Noder: Mae'r Rheoliadau Adeiladu yn gallu newid – gwnewch yn siŵr bob amser eich bod yn cyfeirio at y fersiwn gyfredol berthnasol.

Noder mai dim ond timau Rheolaeth Adeiladu Awdurdodau Lleol a gaiff ddarparu gwasanaethau ar Adeiladau Risg Uwch, boed yn adeilad newydd, gwaith ar Adeilad Risg Uwch sydd eisoes yn bodoli neu waith ar adeilad sy'n bodoli eisoes a fydd yn troi'r adeilad hwnnw yn Adeilad Risg Uwch.

Pa ddarparwr bynnag a ddewiswch, codir tâl arnoch am y gwasanaethau a ddarperir. Gall y Gwasanaeth Rheoli Adeiladu a ddewiswch gynnig cyngor cyn ichi ddechrau ar eich gwaith (gweler hefyd baragraff 2.10).

2.4 Y person sy'n cyflawni a/neu'n comisiynu'r gwaith adeiladu sydd â'r prif gyfrifoldeb am gydymffurfio â'r Rheoliadau. Felly, os mai chi sy'n gwneud y gwaith, chi fydd yn gyfrifol. Os ydych yn cyflogi adeiladwr, y cwmni hwnnw fydd yn gyfrifol fel arfer – ond dylech gadarnhau'r sefyllfa hon ar y dechrau yn. Dylech gofio hefyd, os mai chi yw perchennog yr adeilad, mai chi sy'n gyfrifol yn y pen draw am gydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu (gweler paragraff 6.3). Felly mae'n bwysig eich bod yn dewis eich adeiladwr yn ofalus (gweler paragraff 2.10).

## Y 'Gofynion' yn y Rheoliadau Adeiladu

2.5 Mae'r pwynt bwled olaf ym mharagraff 2.2 uchod yn cyfeirio at y 'gofynion' y mae'n rhaid i waith adeiladu gydymffurfio â nhw. Mae'r rhain yn cynnwys y rhai yn Atodlen 1 i Reoliadau Adeiladu 2010 sydd wedi'u grwpio o dan 16 'rhan'. Mae'r 'rhannau' yn ymdrin ag agweddau unigol ar ddylunio ac adeiladu adeiladau, sy'n amrywio o faterion strwythurol, diogelwch tân, ac arbed ynni – i hylendid, inswleiddio cadarn, a mynediad i adeiladau a'u defnyddio. Rhestrir yr holl 'rannau' yn Nhabl A isod.

2.6 Mae'r 'gofynion' ym mhob 'rhan' yn amlinellu'r amcanion neu'r swyddogaethau helaeth y mae'n rhaid i'r agweddau unigol ar y gwaith o ddylunio ac adeiladu'r adeilad fynd ati i'w cyflawni. Cyfeirir atynt yn aml felly fel 'gofynion swyddogaethol' ac maent yn nodi'r hyn sy'n 'rhesymol', yn 'ddigonol', neu'n 'briodol'. Mae'n bosibl na fydd yr holl ofynion swyddogaethol yn berthnasol i'ch gwaith adeiladu chi, ond rhaid cydymffurfio â'r rhai sy'n berthnasol fel rhan o'r broses gyffredinol o gydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu.

## Y Dogfennau Cymeradwy

2.7 Mae canllawiau ymarferol ar ffyrdd o gydymffurfio â’r gofynion swyddogaethol yn y Rheoliadau Adeiladu mewn cyfres o Ddogfennau Cymeradwy, a dylid eu darllen ochr yn ochr â phob un o’r 16 ‘rhan’ yn Atodlen 1 i Reoliadau Adeiladu 2010. Mae pob dogfen yn cynnwys:

- canllawiau cyffredinol ar y perfformiad a ddisgwylir mewn perthynas deunyddiau a gwaith adeiladu er mwyn cydymffurfio â phob un o ofynion y Rheoliadau Adeiladu; a
- enghreifftiau ymarferol ac atebion ynghylch sut i gydymffurfio ar gyfer rhai o’r sefyllfaoedd adeiladu mwy cyffredin. Mae dolenni i’r holl Ddogfennau Cymeradwy yn Nhabl A isod.



### Tabl A: Yr 16 'rhan' sydd yn Atodlen 1 i Reoliadau Adeiladu 2010

| Gofyniad Atodlen 1 | Dogfen Gymeradwy |
|---|---|
| RHAN A – Strwythur | Dogfen Gymeradwy A: strwythur \| LLYW.CYMRU |
| RHAN B – Diogelwch Tân | Dogfen Gymeradwy B: diogelwch tân \| LLYW.CYMRU |
| RHAN C – Paratoi Safleoedd ac Ymwrthedd i Halogyddion a Lleithder | Dogfen Gymeradwy C |
| RHAN D – Sylweddau Gwenwynig | Dogfen Gymeradwy D |
| RHAN E – Ymwrthedd i Sŵn | Dogfen Gymeradwy E |
| RHAN F – Awyru | Dogfen Gymeradwy F |
| RHAN G – Glanweithdra, Diogelwch Dŵr Poeth ac Arbed Dŵr | Dogfen Gymeradwy G |
| RHAN H – Systemau Draenio a Gwaredu Gwastraff | Dogfen Gymeradwy H |
| RHAN J – Dyfeisiau Cynhyrchu Gwres a Systemau Storio Tanwydd | Dogfen Gymeradwy J |
| RHAN K – Diogelu Rhag Syrthio, Gwrthdaro a Tharo | Dogfen Gymeradwy K |
| RHAN L – Arbed Tanwydd ac Ynni | Dogfen Gymeradwy L: arbed tanwydd ac ynni \| LLYW.CYMRU |
| RHAN M – Mynediad i Adeiladau a'r Defnydd Ohonynt | Dogfen Gymeradwy M |
| RHAN N – Diogelwch Gwydr Mewn Perthynas â Tharo, Agor a Glanhau | Dogfen Gymeradwy N |
| RHAN P – Diogelwch Trydanol mewn Tai Annedd | Dogfen Gymeradwy P |
| RHAN Q – Diogelwch | Dogfen Gymeradwy Q |
| RHAN R – Seilwaith Ffisegol ar gyfer Rhwydweithiau Cyfathrebu Electronig Cyflym | Dogfen Gymeradwy R |
| I ATEGU RHEOLIAD 7: Deunyddiau a Chrefftwaith | Dogfen Gymeradwy 7 |

2.8 Nid yw'r canllawiau yn y dogfennau hyn yn set o ofynion statudol, ac nid oes rhaid eu dilyn os ydych yn dymuno dylunio ac adeiladu eich gwaith adeiladu mewn rhyw ffordd arall, ar yr amod y gallwch ddangos ei fod yn dal i gydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol. Bydd y canllawiau'n cael eu hystyried pan fydd eich Gwasanaeth Rheoli Adeiladu yn ystyried a yw eich cynlluniau gwaith arfaethedig, neu waith sy'n mynd rhagddo, yn cydymffurfio â gofynion penodol. Yn ogystal, mae rhagdybiaeth gyfreithiol, os ydych wedi dilyn y canllawiau, fod hyn yn dystiolaeth bod eich gwaith wedi cydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu. Fodd bynnag, gwaith y Gwasanaeth Rheoli Adeiladu yw ystyried a yw eich cynlluniau a'ch gwaith yn cydymffurfio â'r gofynion yn Atodlen 1 i Reoliadau Adeiladu 2010 – nid o reidrwydd a ydynt yn dilyn y canllawiau penodol neu enghraifft benodol o fewn Dogfen Gymeradwy.

2.9 Bydd rhai mathau o waith adeiladu'n cynnwys gwaith ar adeiladau sydd wedi'u rhestru'n genedlaethol mewn rhyw ffordd ar sail eu diddordeb hanesyddol neu bensaernïol, a/neu sy'n adeiladau a leolir mewn amgylcheddau trefol neu wledig sensitif fel ardaloedd cadwraeth neu fannau o ddiddordeb pensaernïol a hanesyddol. Mae'r Dogfennau Cymeradwy ar gyfer Rhannau B, E, M, L ac R yn cydnabod ei bod yn rhesymol, o dan yr amgylchiadau hyn, fodloni'r gofynion hyn gyda rhagor o sensitifrwydd a hyblygrwydd.

## Ceisio Cyngor a Dewis Eich Adeiladwr

2.10 Oni bai bod gennych wybodaeth ymarferol resymol am godi adeiladau, cyn dechrau ar unrhyw waith byddem yn eich cynghori i geisio cyngor proffesiynol priodol gan berson cymwys sydd â chymwysterau addas sy'n berthnasol i'r gwaith adeiladu rydych am ei wneud (e.e. pensaer, peiriannydd strwythurol, syrfëwr adeiladu, peiriannydd gwresogi neu arbenigwr mewn gosod ffenestri newydd), ac i ddewis adeiladwr ag enw da neu osodwr cofrestredig i wneud y gwaith.



# Adran 3: Sut mae'r Rheoliadau Adeiladu yn gweithio'n ymarferol

## Beth yw 'gwaith adeiladu' yn ôl Rheoliadau Adeiladu?

3.1 Diffinnir 'Gwaith Adeiladu' yn Rheoliad 3 o Reoliadau Adeiladu 2010. Yn ôl y diffiniad mae'r mathau canlynol o brosiectau'n cael eu hystyried yn 'Waith Adeiladu':

(a) adeiladu neu estyn adeilad;

(b) darparu neu estyn gwasanaeth neu ffitiad a reoleiddir (h.y. gwasanaeth neu ffitiad y mae Rhan G, H, J, L neu P o Atodlen 1 yn gosod gofyniad mewn perthynas ag ef;

(c) newid adeilad, neu wasanaeth neu ffitiad a reoleiddir, a fydd yn effeithio dros dro neu'n barhaol ar gydymffurfiaeth barhaus yr adeilad, y gwasanaeth neu'r ffitiad â'r gofynion sy'n gysylltiedig â Rhan A (Strwythur), Rhan B (Diogelwch tân) neu Ran M (Mynediad i adeiladau a'u defnyddio);

(d) gwaith sy'n ofynnol gan Reoliad 6 (h.y. gofynion sy'n ymwneud â newid y ffordd mae adeilad yn cael ei ddefnyddio);

(e) mewnosod deunydd inswleiddio yn wal geudod adeilad;

(f) gwaith sy'n cynnwys tanategu adeilad;

(g) gwaith sy'n ofynnol gan Reoliad 22 (gofynion sy'n ymwneud â newid statws ynni);

(h) gwaith sy'n ofynnol gan Reoliad 23 (gofynion sy'n ymwneud ag elfennau thermol);

(i) gwaith sy'n ofynnol gan Reoliad 28 (gwelliannau canlyniadol i berfformiad ynni).

3.2 Os yw'r gwaith sy'n gysylltiedig â'ch prosiect yn cael ei ystyried yn 'Waith Adeiladu', yna mae'n rhaid iddo gydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu. Mae hyn yn golygu os ydych am:

- godi adeilad newydd, neu estyn neu newid un sy'n bodoli eisoes (e.e. drwy droi llofft yn lle byw);
- neu ddarparu gwasanaethau a/neu ffitiadau mewn adeilad megis:
  - cyfleusterau ymolchi a glanweithdra (e.e. toiledau, cawodydd, basnau ymolchi, sinciau cegin ac ati),
  - silindrau dŵr poeth,
  - draeniau ar gyfer dŵr budr a dŵr glaw,
  - ffenestri newydd, a
  - dyfeisiau cynhyrchu gwres sy'n llosgi tanwydd o unrhyw fath;

yna mae'n debyg y bydd y Rheoliadau Adeiladu yn berthnasol. Mae hyn yn golygu ei bod yn rhaid i'r gwaith ei hun fodloni'r gofynion technegol perthnasol yn Atodlen 1, a rhaid iddo beidio â chael effaith negyddol ar y ffordd mae adeiladwaith, gwasanaethau a ffitiadau eraill yn cydymffurfio, neu eu gwneud yn beryglus. Er enghraifft, ni ddylai darparu ffenestri gwydr dwbl newydd waethygu cydymffurfiaeth mewn perthynas â: ffyrdd o ddianc; y cyflenwad aer ar gyfer dyfeisiau llosgi a'u ffliwiau; nac awyru ar gyfer iechyd. Gallant hefyd fod yn berthnasol i:

- rai newidiadau i'r ffordd mae adeilad presennol yn cael ei ddefnyddio, er eich bod efallai'n meddwl na fydd y gwaith sy'n gysylltiedig â'r prosiect yn cael ei ystyried yn 'Waith Adeiladu'. Y rheswm am hyn yw y gall newid y ffordd mae adeilad yn cael ei ddefnyddio olygu nad yw yn ei gyfanrwydd bellach yn cydymffurfio â'r gofynion a fydd yn berthnasol i'r ffordd mae bellach yn cael ei ddefnyddio, ac felly bydd angen ei uwchraddio i fodloni gofynion ychwanegol a nodir yn y rheoliadau – ac mae'n bosibl y bydd gwneud hyn yn golygu gwaith adeiladu.

## Pwyntiau i wylio amdanynt ar y safle y byddwch yn adeiladu arno: draeniau, radon a sylweddau halogedig

3.3 Dylech fod yn ofalus i ystyried y safle yr ydych yn bwriadu adeiladu arno neu ei estyn. Er enghraifft, os yw eich gwaith adeiladu arfaethedig yn golygu adeiladu dros neu'n agos at ddraeniau, bydd angen i'ch Gwasanaeth Rheoli Adeiladu ymgynghori â'r ymgymerwr carthffosiaeth a allai wneud argymhellion ar ba gamau i'w cymryd i ddiogelu'r draen rhag unrhyw ddifrod a allai ddeillio o'ch gwaith adeiladu. Dangosir llawer o ddraeniau dŵr glaw (dŵr wyneb) a/neu ddraeniau dŵr budr ar yr hyn a elwir y 'Map Carthffosydd Swyddogol'. Ond hyd yn oed os nad yw draen penodol ar y map hwn, ac felly nad yw'n ddarostyngedig i'r weithdrefn ymgynghori, dylech ystyried o hyd pa gamau amddiffynnol y gall fod eu hangen i'w ddiogelu rhag eich gwaith adeiladu arfaethedig. I gael rhagor o arweiniad ar adeiladu dros neu'n agos at ddraen, neu adeiladu (gosod) draen newydd, dylech ymgynghori â'ch ymgymerwr carthffosiaeth lleol (y cwmni sy'n cyflenwi eich dŵr).

3.4 Dylech hefyd wirio a oes gan y safle yr ydych am adeiladu arno hanes o halogi. Er enghraifft, gall y safle:

- fod mewn ardal lle mae lefel y nwy radon sy'n bresennol yn y ddaear yn golygu bod posibilrwydd y gallai lefelau gormodol o nwy radon gronni yn yr adeilad;
- cynnwys sylweddau halogedig naill ai'n agos at yr wyneb neu'n ddyfnach i lawr; neu
- fod o fewn 250 metr i safle tirlenwi.

Mewn achosion o'r fath, efallai y bydd angen diogelu rhag nwy neu sylweddau halogedig o dan Ran C ('Paratoi safleoedd ac ymwrthedd i halogyddion a lleithder') o'r Rheoliadau Adeiladu.

## A yw'n ofynnol imi ymgynghori â fy nghymdogion ynghylch fy ngwaith adeiladu arfaethedig?

3.5 Yn gyffredinol, nid oes unrhyw rwymedigaethau i ymgynghori â'ch cymdogion o dan y Rheoliadau Adeiladu, ond byddai'n ddoeth gwneud hynny. Beth bynnag, dylech fod yn ofalus nad yw eich gwaith adeiladu arfaethedig yn ymyrryd â'u heiddo, gan y gallai hyn arwain at deimladau gwael ac o bosibl camau sifil i addasu neu ddileu'r gwaith. Er enghraifft, efallai bod eich gwaith yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu, ond gallai arwain at rwystro ffliw boeler eich cymydog neu beri iddi gamweithredu. Dylech hefyd wirio ffiniau eich eiddo a sicrhau eich bod yn fodlon nad oes unrhyw weithredoedd cyfamod a allai eich atal rhag gwneud mathau penodol o waith adeiladu ar y ffin rhwng eich eiddo chi ac eiddo cymydog, neu'n agos ato.

3.6 Er nad oes angen ymgynghori â'ch cymdogion o dan y Rheoliadau Adeiladu, dylech nodi, os yw eich prosiect yn ddarostyngedig i Ddeddf Waliau Cydrannol etc. 1996, rhaid ichi hysbysu perchnogion eiddo cyfagos o dan y Ddeddf honno (gweler Atodiad B: 'Ffynonellau gwybodaeth'). Mae'n bosibl hefyd y bydd gweithdrefnau ymgynghori a gwrthwynebu yn dod yn berthnasol os bydd deddfwriaeth arall yn gysylltiedig – yn enwedig, er enghraifft, os oes angen i'ch cynnig gael cymeradwyaeth o dan ddeddfwriaeth Cynllunio Gwlad a Thref.

## Os nad yw'r Rheoliadau Adeiladu'n berthnasol: peryglon i wylio amdanynt

3.7 Dylech gofio bob amser, er efallai nad yw'r gwaith sy'n gysylltiedig â phrosiect adeiladu'n cael ei ystyried yn 'Waith Adeiladu' ac, o ganlyniad, nad yw'n ddarostyngedig i'r Rheoliadau Adeiladu, y gall fod yn ddarostyngedig i reoliadau statudol eraill, a gallai canlyniad terfynol yr hyn yr ydych am ei wneud arwain at sefyllfa beryglus neu ddifrod i'ch eiddo chi neu eiddo cymydog. Gall hefyd olygu nad yw eich adeilad eich hun a/neu adeilad cymydog bellach yn cydymffurfio mewn rhyw ffordd â'r Rheoliadau Adeiladu.

3.8 Y math o bwyntiau i wylio amdanynt yw:

- Adeiladu pwll nofio awyr agored, neu bwll gardd. Gall y rhain achosi perygl – yn enwedig i blant – yn ystod y gwaith adeiladu ac wedyn. Bydd angen cymryd rhagofalon diogelwch.
- Adeiladu wal gardd. Hyd yn oed os yw'n eithaf isel, gall hyn fod yn berygl os nad yw wedi'i adeiladu'n iawn – yn enwedig i blant. Mae canllawiau ar strwythur ar gael mewn perthynas â waliau sy'n bodoli eisoes.
- Gwaith sy'n cynnwys unrhyw fath o waith adeiladu yn agos at ffin eich cartref chi neu ffin cymydog a allai, er enghraifft: rwystro griliau awyru i loriau gwaelod; rhwystro ffliwiau boeleri neu beri iddynt gamweithredu; neu gynhyrchu mygdarth boeleri sy'n niwsans i gymydog.

- Gosod wyneb newydd neu ddec ar falconi sy’n bodoli eisoes. Efallai na fydd hyn bob amser yn ddarostyngedig i’r Rheoliadau Adeiladu, ond gall arwain at leihau uchder effeithiol y rheilen ddiogelwch, ac felly cynyddu’r risg y bydd pobl yn colli eu balans ac yn syrthio.
- Codi adeilad sy’n cael ei esemptio fel lle porth ceir, ystafell wydr neu gyntedd (gweler Atodiad A sy’n crynhoi’r eithriadau yn y Rheoliadau Adeiladu) a allai, er enghraifft: rwystro griliau awyru i loriau gwaelod; rhwystro ffliwiau boeleri neu beri iddynt gamweithredu; cael effaith andwyol ar ddiogelwch mesurydd nwy o ganlyniad i awyru gwaeth neu ddatguddiad gormodol i dymheredd; neu amharu ar amodau gweithredu diogel ar gyfer offer nwy, neu rwystro’r ffordd o ddianc mewn argyfwng.
- Tynnu neu ychwanegu coeden yn agos at un o waliau eich tŷ chi neu wal eiddo cyfagos. Gallai hyn effeithio ar sylfeini a sefydlogrwydd strwythurol yr adeilad.

3.9 Mae’n bwysig deall bod y diffiniad yn y Rheoliadau Adeiladu o ‘waith adeiladu’ hefyd yn cynnwys gweithgareddau nad ydynt o bosibl yn cynnwys gwaith ffisegol – fel newid y defnydd yn sylweddol. Ym mhob achos o’r fath, byddem yn argymell eich bod yn ceisio cyngor proffesiynol a/neu ymgynghori â darparwr Gwasanaethau Rheoli Adeiladu.



# Adran 4: A fydd y Rheoliadau Adeiladu yn berthnasol i'r gwaith rwyf am ei wneud?

4.1 Rydym wedi paratoi llyfryn ar wahân sy'n ateb rhai o'r cwestiynau mwyaf cyffredin am waith adeiladu, ac am osod, newid neu atgyweirio gwasanaethau, ffitiadau, draeniau ac offer cynhyrchu gwres. Mae'r llyfryn yn ymdrin â'r meysydd a ganlynol:

- Cartrefi newydd (h.y. tŷ, byngalo, fflat deulawr, neu floc o fflatiau) ac estyniadau, ac unrhyw fath arall o adeilad newydd.
- Addasiadau, trosiadau a newidiadau i'r ffordd mae cartrefi ac unrhyw fath arall o adeilad yn cael eu defnyddio.
- Gwaith atgyweirio a chynnal a chadw.
- Gwasanaethau a ffitiadau.
- Dyfeisiau llosgi tanwydd.



# Adran 5: Y ddau fath o Wasanaeth Rheoli Adeiladu

5.1 Os yw eich gwaith yn cael ei ystyried yn ‘Waith Adeiladu’ (gweler paragraffau 3.1 a 3.2) bydd yn ddarostyngedig i’r Rheoliadau Adeiladu a bydd rhaid iddo gydymffurfio â nhw. I wirio a ydych yn cydymffurfio â’r rheoliadau, mae angen ichi ddefnyddio un o ddau fath o Wasanaeth Rheoli Adeiladu:

- Gwasanaeth Rheoli Adeiladu eich Awdurdodau Lleol; neu
- Wasanaeth Rheoli Adeiladu gan Gymeradwywr Cofrestredig Rheoli Adeiladu.

5.2 Os yw eich prosiect adeiladu’n cynnwys mathau penodol o waith (e.e. rhai mathau o ddraen, offer llosgi tanwydd, ffenestri newydd, toiledau a chawodydd), a’ch bod yn cyflogi gosodwr cofrestredig sy’n aelod o gynllun person cymwys perthnasol, ni fydd angen ichi ddefnyddio Gwasanaeth Rheoli Adeiladu. Mae Cynlluniau Person Cymwys yn caniatáu i unigolion a busnesau hunanardystio bod eu gwaith yn cydymffurfio â’r Rheoliadau Adeiladu yn lle defnyddio Gwasanaeth Rheoli Adeiladu a ddarperir gan awdurdod lleol neu Gymeradwywr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu. Fodd bynnag, mae’r consesiwn hwn wedi’i gyfyngu’n llym i’r math penodol o osodiad a ddisgrifir yn Rheoliad 20 ac Atodlen 3 i Reoliadau Adeiladu 2010, ac nid yw’n cynnwys unrhyw fath arall o waith adeiladu.

5.3 Gallwch gysylltu â Gwasanaeth Rheoli Adeiladu eich awdurdod lleol drwy eich awdurdod lleol. Cwmnïau neu ymarferwyr sector preifat yw Cymeradwywyr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu, ac fe’u cymeradwyir i gynnal y Gwasanaeth Rheoli Adeiladu yn lle eich awdurdod lleol. Gall Cymeradwywyr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu ddarparu gwasanaeth mewn perthynas â’r rhan fwyaf o fathau o brosiect adeiladu sy’n cynnwys adeiladau newydd neu waith i adeiladau sy’n bodoli eisoes, gan gynnwys estyniadau neu addasiadau i gartrefi. Mae’r holl Cymeradwywyr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu wedi’u cofrestru gyda’r Rheoleiddiwr Diogelwch Adeiladau ar ran Gweinidogion Cymru. Gweler Atodiad B: ‘Ffynonellau gwybodaeth’ lle mae dolen i dudalen a fydd yn eich helpu i gysylltu â’r ddau fath o Wasanaeth Rheoli Adeiladu.

5.4 Dylid nodi na all Cymeradwywyr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu ddarparu gwasanaethau rheoli adeiladu ar gyfer unrhyw waith ar adeilad risg uwch. Dyma pan fydd adeiladau risg uwch yn cael eu hadeiladau neu pan fydd unrhyw waith yn cael ei wneud arnynt, neu pan fydd y gwaith yn gwneud adeilad yn adeilad risg uwch. Fel arfer, adeiladau risg uwch yw’r rhai sydd o leiaf 18 metr/saith llawr o uchder a bod o leiaf un uned breswyl ganddynt. Mae’r disgrifiad llawn yn Rheoliadau Diogelwch Adeiladau (Disgrifiad o Adeilad Risg Uwch) (Cyfnod Dylunio ac Adeiladu) (Cymru) 2023.

5.5 Os ydych yn cyflogi adeiladwr i wneud eich gwaith, dylech fod yn glir o’r cychwyn cyntaf ai ef fydd yn gyfrifol am sicrhau bod y gwaith adeiladu yn cydymffurfio â’r Rheoliadau Adeiladu, a hefyd ai ef fydd yn gyfrifol am gysylltu â’r Gwasanaeth Rheoli Adeiladu yr ydych wedi penderfynu ei ddefnyddio (gweler hefyd baragraff 2.10). Yn ogystal, dylech gofio ei bod yn bosibl y bydd angen caniatâd cynllunio ar gyfer eich gwaith adeiladu. Bydd angen ichi wirio’r sefyllfa; ac os oes angen caniatâd arnoch, bydd angen ichi fod glir ai chi, eich adeiladwr neu ddylunydd a fydd yn gyfrifol am gael y cyfrifoldeb hwnnw. Gall rhai mathau o ddatblygiadau adeiladu hefyd fod yn ddarostyngedig i fathau eraill o ofynion a chydsyniadau statudol (gweler paragraff 1.3). Yn y pen draw, perchennog yr adeilad fydd yn gyfrifol am fodloni’r holl ofynion, ac yn destun unrhyw gamau gorfodi am unrhyw fethiant i gydymffurfio.

## Gwasanaeth Rheoli Adeiladu eich Awdurdod Lleol

5.6 Yn dibynnu ar faint a math y gwaith o dan sylw, mae’n bosibl y bydd gennych yr opsiwn i ddilyn un o ddwy weithdrefn wahanol sydd ar gael o fewn y gwasanaeth hwn:

- cyflwyno cais cynlluniau llawn; neu
- roi hysbysiad adeiladu (ac eithrio rhai mathau o waith adeiladu – yn bennaf mewn perthynas â materion diogelwch tân lle y defnyddir adeilad fel gweithle neu lle y gallai’r gwaith effeithio ar garthffos gyhoeddus).

### Beth yw’r gwahaniaethau rhwng y weithdrefn ar gyfer cais cynlluniau llawn a’r weithdrefn ar gyfer hysbysiad adeiladu? Beth allai ddylanwadu ar fy newis?

### Cais Cynlluniau Llawn:

5.7 Mae angen i gais a gyflwynwyd o dan y weithdrefn hon gynnwys cynlluniau a gwybodaeth arall sy’n dangos yr holl fanylion adeiladu – ymhell cyn i’r gwaith ddechrau ar y safle os oes modd. Bydd eich awdurdod lleol yn gwirio eich cynlluniau ac yn ymgynghori ag unrhyw awdurdodau priodol (e.e. awdurdod tân ac ymgymerwr carthffosiaeth). Rhaid iddynt gwblhau’r weithdrefn drwy roi penderfyniad ichi o fewn pum wythnos neu, os ydych yn cytuno, ddau fis o ddyddiad cyflwyno’r cais fan bellaf.

5.8 Os bydd eich cynlluniau’n cydymffurfio â’r Rheoliadau Adeiladu, byddwch yn derbyn hysbysiad yn nodi eu bod wedi cael eu cymeradwyo. Os nad yw eich awdurdod lleol yn fodlon mae’n bosibl y gofynnir ichi wneud diwygiadau neu roi rhagor o fanylion. Fel arall, gellir rhoi cymeradwyaeth amodol. Bydd hon naill ai’n nodi addasiadau y mae’n rhaid eu gwneud i’r cynlluniau; neu bydd yn nodi bod angen cynlluniau pellach y mae’n rhaid eu cyflwyno i’ch awdurdod. Dim ond os ydych naill ai wedi gofyn iddynt wneud hynny neu wedi cydsynio iddynt wneud hynny y caiff eich awdurdod lleol osod amodau. Rhaid cyflwyno cais neu gydsyniad yn ysgrifenedig. Os gwrthodir eich cynlluniau, bydd y rhesymau’n cael eu nodi yn yr hysbysiad. Mae hysbysiad cymeradwyo cynlluniau llawn yn ddilys am dair blynedd o ddyddiad cyflwyno’r cynlluniau, ac ar ôl hynny gall yr awdurdod lleol anfon hysbysiad atoch i’ch hysbysu bod y gymeradwyaeth wedi dod i ben os nad yw’r gwaith adeiladu wedi dechrau.

5.9 Bydd eich awdurdod lleol yn cynnal archwiliadau o'r gwaith adeiladu ar ôl iddo ddechrau. Byddant yn esbonio'r gweithdrefnau hysbysu y mae'n ofynnol ichi eu dilyn o dan y Rheoliadau ar gyfer y gwahanol gamau o'r gwaith – e.e. mewn perthynas â sylfeini, cyrsiau atal lleithder, draeniau ac ati. Yn ogystal, bydd yr awdurdod lleol yn rhoi tystysgrif gwblhau ichi ar yr amod eu bod yn fodlon bod y gwaith a gwblhawyd yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu (gweler paragraff 5.23).

5.10 Pwynt arall i'w gofio yw, os bydd anghytundeb yn codi gyda'ch awdurdod lleol, fod y weithdrefn 'cais cynlluniau llawn' yn eich galluogi i ofyn am 'benderfyniad' gan Weinidogion Cymru ynghylch a yw eich cynlluniau'n cydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu neu beidio (gweler paragraff 5.20).

### Y Weithdrefn Hysbysiadau Adeiladu:

5.11 Nid yw'r weithdrefn hon yn cynnwys pasio na gwrthod cynlluniau. Felly, mae'n osgoi paratoi 'cynlluniau llawn' manwl, ac fe'i cynlluniwyd i alluogi rhai mathau o waith adeiladu i ddechrau'n gyflym; er ei bod efallai'n fwy addas ar gyfer prosiectau symlach. Mae gwaharddiadau penodol yn y Rheoliadau hefyd pan na ellir defnyddio hysbysiad adeiladu. Mae'r rhain ar gyfer gwaith adeiladu sy'n ddarostyngedig i'r Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân); ar gyfer gwaith sydd dros neu'n agos at ddraeniau dŵr glaw neu ddŵr budr (carthffosiaeth), a ddangosir ar y 'Map o Garthffosydd' (gweler paragraff 3.3); a lle bydd blaen adeilad newydd yn wynebu stryd breifat. Os byddwch yn penderfynu defnyddio'r weithdrefn hon mae angen ichi fod yn hyderus y bydd y gwaith yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu, neu mae risg y bydd rhaid ichi unioni unrhyw waith a wnewch chi os bydd eich awdurdod lleol yn gofyn am hyn. Yn hyn o beth, nid oes gennych yr amddiffyniadau a ddarperir drwy gymeradwyo 'cais cynlluniau llawn'.

5.12 Pan fyddwch wedi cyflwyno eich 'hysbysiad adeiladu' ac wedi hysbysu eich awdurdod lleol eich bod ar fin dechrau ar y gwaith, bydd y gwaith yn cael ei archwilio wrth iddo fynd yn ei flaen. Bydd yr awdurdod yn eich hysbysu os nad yw'r gwaith yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu. Os bydd angen rhagor o wybodaeth ar eich awdurdod lleol fel cyfrifiadau neu gynlluniau dylunio strwythurol cyn dechrau'r gwaith, neu pan fydd gwaith yn mynd rhagddo, rhaid ichi ddarparu'r manylion y gofynnir amdanynt. Mae 'hysbysiad adeiladu' yn ddilys am dair blynedd o'r dyddiad y cyflwynwyd yr hysbysiad i'r awdurdod lleol, ac ar ôl hynny bydd yn dod i ben yn awtomatig os nad yw'r gwaith adeiladu wedi dechrau. Mae gennych yr hawl i apelio yn erbyn un neu fwy o ofynion yr Awdurdod Lleol, os ydych yn credu eu bod yn rhy feichus neu'n amhriodol/afresymol, a rhaid ichi ddilyn y canllawiau ar apelio at Weinidogion Cymru ar wefan Llywodraeth Cymru.

5.13 Bydd yr awdurdod lleol yn rhoi tystysgrif gwblhau ichi ar yr amod eu bod yn fodlon bod y gwaith a gwblhawyd yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu.

### A oes rhaid imi dalu am wasanaeth yr awdurdod lleol?

5.14 Oes – mae tâl yn daladwy i'ch awdurdod lleol a bydd yn destun TAW. Mae'n ofynnol i bob awdurdod bennu eu taliadau unigol eu hun yn unol â'r math o waith dan sylw, a'u cyhoeddi mewn 'cynllun' y byddant yn gallu ei roi ichi ar gais. Mae'r sail ar gyfer pennu'r taliadau yn Rheoliadau Adeiladu (Taliadau Awdurdodau Lleol) 2010, sy'n ei gwneud yn ofynnol, ymhlith pethau eraill, i awdurdodau lleol bennu eu ffioedd gyda'r nod o adennill costau darparu eu gwasanaeth. Mae'r rheoliadau hefyd yn esemptio rhai mathau o waith adeiladu sydd er budd pobl anabl yn unig rhag y taliadau hyn.

### A oes unrhyw wahaniaeth rhwng y gost am Gais Cynlluniau Llawn a Hysbysiad Adeiladu?

5.15 Fel arfer ni fydd unrhyw wahaniaeth. Fodd bynnag, bydd hyn yn amrywio rhwng gwasanaethau rheoli adeiladu gwahanol awdurdodau lleol, a dylech wirio gyda'ch darparwr lleol.

5.16 Mae angen talu'r tâl am eich cais cynlluniau llawn neu eich hysbysiad adeiladu pan fyddwch yn ei gyflwyno; ac mae angen talu'r tâl am yr archwiliad ar ôl i'r archwiliad cyntaf gael ei gynnal. Dim ond unwaith y mae angen talu'r tâl am archwiliad, ni waeth faint o archwiliadau mae angen eu cynnal. Bydd eich awdurdod lleol yn gallu dweud wrthych beth yw'r union daliadau drwy gyfeirio at eu cynllun taliadau. Efallai y bydd yn bosibl gwneud taliadau mewn rhandaliadau drwy gytundeb â'ch awdurdod lleol.

### Pryd y caf ddechrau ar y gwaith?

5.17 Os ydych wedi cyflwyno cais cynlluniau llawn, dim ond os byddwch yn aros nes eich bod wedi derbyn hysbysiad o gymeradwyaeth cyn dechrau ar eich gwaith y byddwch yn derbyn yr holl manteision ac amddiffyniadau mae'r weithdrefn hon yn eu darparu. Fodd bynnag, os byddwch yn dewis gwneud hynny, nid oes dim i'ch atal rhag dechrau ar y gwaith pan fyddwch wedi cyflwyno eich cynlluniau ac wedi rhoi hysbysiad i'ch awdurdod lleol o'ch bwriad i ddechrau, a hynny o leiaf dau ddiwrnod clir (heb gynnwys y diwrnod y cyflwynwyd yr hysbysiad ac unrhyw ddydd Sadwrn, dydd Sul, Gŵyl Banc neu ŵyl gyhoeddus) cyn ichi ddechrau.

5.18 Os ydych ar y llaw arall wedi dewis defnyddio'r weithdrefn 'hysbysiad adeiladu' (gweler paragraffau 5.10 – 5.12), mae'r weithdrefn hon wedi'i chynllunio'n benodol i'ch galluogi i ddechrau ar y gwaith yn syth ar ôl ichi gyflwyno hysbysiad o'ch bwriad i ddechrau i'ch awdurdod lleol, a hynny o leiaf dau ddiwrnod clir (heb gynnwys y diwrnod y cyflwynwyd yr hysbysiad ac unrhyw ddydd Sadwrn, dydd Sul, Gŵyl Banc neu ŵyl gyhoeddus) cyn ichi ddechrau.

### Beth gallaf ei wneud os bydd anghytundeb yn codi gyda fy hawdurdod lleol a/neu os gwrthodir fy nghynlluniau llawn?

5.19 Os ydych yn fodlon gwneud hynny, y ffordd symlaf o fwrw ymlaen os gwrthodir eich cynlluniau yw ailgyflwyno eich cais cynlluniau llawn gyda'r diwygiadau a argymhellir gan yr awdurdod lleol, fel y gallent roi hysbysiad o gymeradwyaeth ichi. Yna byddwch yn elwa ar holl fanteision ac amddiffyniadau sydd ynghlwm wrth gais cynllun llawn wedi'i gymeradwyo. Efallai na fydd yn rhaid ichi wneud unrhyw daliadau ychwanegol am hyn. Fel arall, nid oes dim i'ch atal rhag dechrau ar y gwaith ar yr amod eich bod yn rhoi'r hysbysiad o'ch bwriad i ddechrau sydd ei angen ac yn sicrhau bod eich gwaith adeiladu'n cydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu. Ond dylech gofio, os nad yw'n cydymffurfio, y gall eich awdurdod lleol gymryd camau gorfodi (gweler paragraffau 6.3 a 6.4).

5.20 Fodd bynnag, os ydych yn credu bod y cynlluniau a gyflwynwyd gennych yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu, ac nad ydych felly am eu diwygio am eich bod yn anghytuno â barn eich awdurdod lleol, gallwch gyfeirio'r mater at Weinidogion Cymru drwy ofyn am benderfyniad ynghylch a yw eich cynigion yn cydymffurfio â gofynion penodol yn y Rheoliadau neu beidio. Gallwch ofyn am benderfyniad cyn neu ar ôl i'ch awdurdod lleol wneud penderfyniad ffurfiol ynghylch eich cynlluniau.

5.21 Fel arall, os ydych yn credu bod un o ofynion penodol y Rheoliadau Adeiladu yn rhy feichus neu'n amhriodol i amgylchiadau penodol y gwaith, gallwch wneud cais i'ch awdurdod lleol i'w lacio neu ei hepgor. Os bydd eich awdurdod yn gwrthod eich cais, gallech wedyn apelio yn erbyn y penderfyniad hwn i Weinidogion Cymru o fewn mis iddo gael ei wrthod.

5.22 Mae Canllaw i Benderfyniadau ac Apeliadau (gweler Atodiad B: 'Ffynonellau gwybodaeth') sy'n amlinellu manylion y gweithdrefnau o dan sylw.

### A allaf gael tystysgrif gwblhau pan fydd y gwaith adeiladu wedi cael ei gwblhau?

5.23 Gallwch. O dan Reoliad 17 bydd awdurdod lleol yn rhoi tystysgrif gwblhau o fewn wyth wythnos (pedair wythnos ar gyfer 17A) ym mhob achos (gan gynnwys pan fydd tystysgrif eisoes wedi'i rhoi o dan reoliad 17A, h.y. ar gyfer adeiladu a feddiannir cyn cwblhau'r gwaith) pan fyddant yn fodlon, ar ôl cymryd pob cam rhesymol, fod adeilad, ar ôl cwblhau'r gwaith adeiladu a wnaed arno, yn cydymffurfio â'r darpariaethau perthnasol.

Bydd tystysgrif a roddir yn unol â Rheoliad 17 neu Reoliad 17A yn dystiolaeth (ond nid yn dystiolaeth derfynol) y cydymffurfiwyd â'r gofynion a bennir yn y dystysgrif.

## Gwasanaeth Rheoli Adeiladu Arolygydd Cymeradwy

5.24 Pan fyddwch yn defnyddio Cymeradwywr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu ef fydd yn gyfrifol am wirio cynlluniau ac archwilio eich gwaith adeiladu. Mae'r weithdrefn yn ei gwneud yn ofynnol ichi a'r Cymeradwywr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu hysbysu eich awdurdod lleol ar y cyd am eich gwaith adeiladu arfaethedig drwy'r hyn a elwir yn hysbysiad cychwynnol. Pan fydd eich awdurdod lleol wedi derbyn yr hysbysiad, bydd y cyfrifoldeb am wirio cynlluniau ac archwilio'r safle yn cael ei roi'n ffurfiol i'r Cymeradwywr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu.

5.25 Bydd Cymeradwywr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu yn:

- eich cynghori ar sut mae'r Rheoliadau Adeiladu yn berthnasol i'ch gwaith;
- gwirio eich cynlluniau;
- cyhoeddi tystysgrif cynlluniau (os gofynnir am un);
- archwilio gwaith wrth iddo fynd yn ei flaen;
- cyhoeddi tystysgrif derfynol.

Bydd y Cymeradwywr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu yn dweud wrthych pa gynlluniau a gwybodaeth sydd eu hangen arno er mwyn sicrhau y bydd y gwaith arfaethedig yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu.

5.26 Os gofynnwch am un, bydd yr Cymeradwywr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu yn cyhoeddi tystysgrif cynlluniau a fydd yn cadarnhau bod cynlluniau eich gwaith adeiladu arfaethedig yn dangos eu bod yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu. Pan fydd y gwaith wedi'i gwblhau, rhaid i'r Cymeradwywr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu roi tystysgrif derfynol, o fewn pedair neu wyth wythnos, i'r awdurdod lleol i ddweud bod y gwaith y cyfeirir ato yn yr hysbysiad cychwynnol wedi'i gwblhau, a bod yr arolygydd wedi cyflawni ei gyfrifoldebau arolygu. Os nad yw'r Cymeradwywr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu yn fodlon bod y gwaith yn cydymffurfio, yna ni chaiff roi'r dystysgrif derfynol. Os nad ydych yn barod i newid y gwaith bydd yn rhaid i'r Cymeradwywr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu gyfeirio'r mater at yr awdurdod lleol (gweler paragraffau 5.28 a 6.2).

### A oes rhaid imi dalu am wasanaethau'r Cymeradwywr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu?

5.27 Oes – bydd angen talu ffi a fydd i'w drafod rhyngoch chi a'r Cymeradwywr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu. Bydd angen talu VAT ar y ffi.

### Beth gallaf ei wneud os nad yw'r Cymeradwywr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu yn fodlon ar fy nghynigion neu fy ngwaith sy'n mynd rhagddo?

5.28 Os nad yw'r Cymeradwywr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu yn fodlon ar gynlluniau eich gwaith, yr opsiynau sydd ar gael ichi fydd:

- newid eich cynlluniau yn unol â chyngor y Cymeradwywr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu;
- gofyn am benderfyniad gan Weinidogion Cymru ynghylch unrhyw anghytundeb mewn perthynas â'r cynlluniau sy'n codi rhyngoch chi a'r Registered Building Control Approver. (Mae hyn yn debyg i'r weithdrefn a fyddai'n agored ichi pe baech yn defnyddio Gwasanaeth Rheoli Adeiladu eich awdurdod lleol ac fel yr esboniwyd ym mharagraff 5.20);
- gwneud cais i'ch awdurdod lleol i lacio neu hepgor un o ofynion y Rheoliadau Adeiladu ac, os bydd eich awdurdod yn gwrthod, apelio i Weinidogion Cymru. (Dyma'r un weithdrefn ag a fyddai'n agored ichi pe baech yn defnyddio Gwasanaeth Rheoli Adeiladu eich awdurdod lleol ac fel yr esboniwyd ym mharagraff 5.21).

5.29 Os nad yw'r Cymeradwywr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu yn fodlon ar y gwaith wrth iddo fynd rhagddo ar y safle, ac na allwch ddatrys yr anghytundeb drwy drafodaeth, bydd yn rhaid i'r cymeradwywr ganslo'r hysbysiad cychwynnol drwy hysbysiad i'r awdurdod lleol. Ar ôl gwneud hynny ni fydd y cymeradwywr bellach yn gyfrifol am reoli eich prosiect adeiladu. O dan yr amgylchiadau hyn, mae'n debygol y bydd yn rhaid i swyddogaeth y Gwasanaeth Rheoli Adeiladu ddychwelyd i'ch awdurdod lleol. Ar ôl hynny, gall eich awdurdod ofyn am gynlluniau ac, os oes angen, ei gwneud yn ofynnol ichi ddangos y gwaith i'w galluogi i benderfynu a yw eich gwaith wedi cydymffurfio hyd hynny, a pha newidiadau sydd eu hangen. Byddant yn codi tâl arnoch am yr hyn a elwir yn 'dâl gwrthdroi' i dalu am gost eu Gwasanaeth Rheoli Adeiladu parhaus.

### Pryd y caf ddechrau ar y gwaith?

5.30 Yn amodol ar unrhyw drefniadau yr ydych wedi cytuno arnynt gyda'ch Cymeradwywr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu, cewch ddechrau ar y gwaith cyn gynted ag y bydd yr awdurdod lleol yn derbyn yr hysbysiad cychwynnol. Ni chaiff y gwaith ddechrau os yw'r hysbysiad cychwynnol yn cael ei wrthod neu ei farnu yn annilys. Os nad yw'r hysbysiad yn cael ei wrthod gan yr awdurdod lleol, cewch ddechrau ar y gwaith bum diwrnod ar ôl iddo gael ei roi.

# Adran 6: Achosion o dorri'r Rheoliadau Adeiladu a chamau gorfodi

## Beth sy'n digwydd os byddaf yn torri'r Rheoliadau Adeiladu?

6.1 Gellir torri'r Rheoliadau Adeiladu drwy beidio â dilyn y gweithdrefnau rheoli adeiladu a nodir ganddynt ar gyfer ymdrin â'ch gwaith adeiladu, a/neu drwy wneud gwaith adeiladu nad yw'n cydymffurfio â'r gofynion a geir yn y Rheoliadau Adeiladu. Mae gan yr awdurdod lleol ddyletswydd gyffredinol i orfodi'r Rheoliadau Adeiladu yn ei ardal, a bydd yn ceisio gwneud hynny drwy ddulliau anffurfiol lle bynnag y bo modd. Mae'r ddyletswydd hon yn cynnwys ac yn rhan o'i swyddogaeth pan fydd yn cyflawni'r Gwasanaeth Rheoli Adeiladu.

6.2 Os yw Cymeradwywr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu yn darparu'r Gwasanaeth Rheoli Adeiladu, y Cymeradwywr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu hwnnw fydd yn gyfrifol am wirio cydymffurfiaeth â'r Rheoliadau Adeiladu yn ystod eich gwaith adeiladu. Ar y cyfan, bydd yn gwneud hyn drwy eich cynghori fel yr eglurir ym mharagraff 5.25. Fodd bynnag, nid oes gan Cymeradwywr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu bwerau gorfodi. Yn hytrach, mae'r Rheoliadau'n darparu, mewn sefyllfa lle mae o'r farn nad yw eich gwaith adeiladu yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu, na ddylai roi tystysgrif derfynol ichi ac, yn ogystal, bydd yn canslo'r hysbysiad cychwynnol drwy hysbysu eich awdurdod lleol (gweler paragraff 5.29). Os na fydd unrhyw Cymeradwywr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu arall yn ymgymryd â'r gwaith, bydd eich awdurdod lleol yn ymgymryd â'r Gwasanaeth Rheoli Adeiladu yn awtomatig. O'r pwynt hwn ymlaen, bydd gan eich awdurdod lleol bwerau gorfodi hefyd i'w gwneud yn ofynnol ichi newid eich gwaith, os yw'n ystyried bod angen gwneud hynny.

6.3 Os bydd person sy'n gwneud gwaith adeiladu yn torri'r Rheoliadau Adeiladu, gall yr awdurdod lleol neu berson arall benderfynu mynd ag ef i'r llys ynadon lle y gellid rhoi dirwy iddo (adran 35 o Ddeddf Adeiladu 1984). Bydd y camau hyn fel arfer yn cael eu cymryd yn erbyn yr adeiladwr neu'r prif gontractwr, er bod rhaid dechrau achos o fewn dwy flynedd i'r drosedd gael ei chyflawn (adran 35A o Ddeddf Adeiladu 1984). Fel arall, neu yn ogystal â hynny, caiff yr awdurdod lleol gyflwyno hysbysiad gorfodi i'r perchennog yn ei gwneud yn ofynnol iddo newid neu ddileu gwaith sy'n torri'r Rheoliadau (adran 36 o Ddeddf Adeiladu1984). Os nad yw'r perchennog yn cydymffurfio â'r hysbysiad, mae gan yr awdurdod lleol y pŵer i ymgymryd â'r gwaith ei hun ac adennill costau gwneud hynny oddi wrth y perchennog.

6.4 Ni ellir cyflwyno hysbysiad gorfodi adran 36 ichi ar ôl 12 mis o ddyddiad cwblhau'r gwaith adeiladu, ond nid yw hyn yn effeithio ar hawl awdurdod lleol (nac unrhyw berson arall) i wneud cais i'r llysoedd am waharddeb at yr un diben. Ni all awdurdod lleol gymryd camau gorfodi o dan adrannau 35 a 36 chwaith os yw'r gwaith yr ydych wedi'i wneud yn cydymffurfio â'ch cynlluniau a gafodd eu cymeradwyo gan yr awdurdod, neu os na chawsant eu gwrthod o fewn yr amser statudol o bum wythnos (neu ddau fis gyda'ch caniatâd) ar ôl y dyddiad y cyflwynwyd y cynlluniau (gweler paragraff 5.7), neu os yw tystysgrif cynlluniau wedi cael ei chyhoeddi ar gyfer y gwaith gan Cymeradwywr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu.

6.5 Er y posibilrwydd o gamau gorfodi, dylech gofio, os yw'r awdurdod lleol o'r farn nad yw'r gwaith adeiladu a wnaed yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu ac nad yw'n cael ei unioni, ni fydd yr awdurdod yn rhoi tystysgrif gwblhau ichi (gweler paragraff 5.23) a gall y toriad ddod i'r amlwg drwy ymholiad chwilio tir lleol pan fyddwch yn dymuno gwerthu neu ailforgeisio eich eiddo.

## Beth sy'n digwydd os rwy'n anghytuno â Hysbysiad Gorfodi'r Awdurdod Lleol?

6.6 Fel arfer bydd yr hysbysiad gorfodi yn rhoi 28 diwrnod ichi unioni'r gwaith adeiladu. Os hoffech herio'r hysbysiad ar y sail eich bod yn credu bod eich gwaith adeiladu yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu, mae gennych yr opsiynau canlynol:

(i) hysbysu eich awdurdod lleol eich bod yn dymuno cael adroddiad ysgrifenedig gan berson â chymwysterau addas ynghylch cydymffurfiaeth eich gwaith (adran 37 o Ddeddf Adeiladu 1984), gyda'r bwriad o berswadio'r awdurdod i dynnu'r hysbysiad yn ôl. Yn yr achos hwn, mae'r cyfnod o 28 diwrnod i unioni'r gwaith adeiladu yn cael ei estyn i 70 diwrnod.

(ii) apelio yn erbyn yr hysbysiad yn y llys ynadon a dangos bod eich gwaith adeiladu'n cydymffurfio (adran 40 o Ddeddf Adeiladu 1984). Gellir defnyddio'r opsiwn hwn naill ai yn lle opsiwn (i), neu os yw camau o dan opsiwn (i) wedi bod yn aflwyddiannus. Rhaid ichi wneud eich apêl o fewn 28 diwrnod i dderbyn yr hysbysiad, neu o fewn 70 diwrnod os ydych wedi defnyddio opsiwn (i) gyntaf.

Rhaid ichi wneud eich apêl o fewn 28 diwrnod i dderbyn yr hysbysiad, neu o fewn 70 diwrnod os ydych wedi defnyddio opsiwn (i) gyntaf.


6.7 Os ydych yn credu ar y llaw arall na ellir disgwyl i'ch gwaith gydymffurfio ag un neu fwy o'r gofynion yn y Rheoliadau Adeiladu am eu bod yn rhy feichus neu'n amhriodol, mae gennych yr hawl i wneud cais i'ch awdurdod lleol i lacio neu hepgor y gofyniad(ion) dan sylw, fel y gellir ystyried bod y gwaith adeiladu rydych wedi'i gwblhau'n cydymffurfio (gweler paragraff 5.21). Rhaid i'ch cais gael ei wneud o fewn 28 diwrnod i dderbyn yr hysbysiad gorfodi gan eich awdurdod. Os byddant yn gwrthod eich cais mae gennych hawl i apelio i Weinidogion Cymru yn erbyn y gwrthodiad hwnnw, ar yr amod eich bod yn gwneud hynny o fewn mis i'r penderfyniad hwnnw. Fodd bynnag, os byddwch yn cymryd y camau hyn mewn ymateb i hysbysiad gorfodi, ac os ydych wedi mynnu yn wreiddiol fod eich gwaith yn cydymffurfio, mae'n debygol y bydd eich achos yn anoddach ei gyfiawnhau. Dylech weld y Canllaw i Benderfyniadau ac Apeliadau (gweler Atodiad B: Ffynonellau gwybodaeth.

## Sut y gallaf fynd ati i wirio a yw gwaith adeiladu anawdurdodedig yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu?

6.8 Mae'r Rheoliadau Adeiladu yn darparu i berchennog eiddo wneud cais i'r awdurdod lleol am dystysgrif unioni mewn perthynas â gwaith adeiladu 'anawdurdodedig'. Mae hyn yn golygu gwaith a wnaed ar neu ar ôl 11 Tachwedd 1985 ac a ddylai fod wedi cael ei gyflwyno i fod yn destun gweithdrefnau'r Rheoliadau Adeiladu, ond na chafodd ei gyflwyno. Codir tâl arnoch am y gwasanaeth unioni hwn.

6.9 Wrth asesu cydymffurfiaeth gall yr awdurdod lleol ofyn i waith anawdurdodedig gael ei 'ddadorchuddio'. Yna, bydd yr awdurdod yn penderfynu a oes angen gwneud gwaith adferol, yn unol â'r Rheoliadau Adeiladu a oedd yn berthnasol i'r gwaith hwnnw pan gafodd ei wneud yn wreiddiol, cyn y gallant gyhoeddi tystysgrif unioni. Mae tystysgrif unioni yn dystiolaeth (ond nid tystiolaeth bendant) y cydymffurfiwyd â gofynion y Rheoliadau Adeiladu a bennir yn y dystysgrif.

6.10 Os ydych yn pryderu am waith adeiladu anawdurdodedig a adeiladwyd cyn 11 Tachwedd 1985 ac nad yw efallai'n cydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu, dylech drafod y broblem â'ch awdurdod lleol.



# Atodiad A: Enghreifftiau o adeiladau sydd wedi'u heithrio rhag rheolaeth o dan y Rheoliadau Adeiladu

Mae'r rhestr lawn o adeiladau sy'n cael eu hesemptio yn Atodlen 2 i Reoliadau Adeiladu 2010 (fel y'i diwygiwyd). Canllaw yn unig yw'r adran isod i rai o'r mathau mwy cyffredinol o adeiladau a gwaith adeiladu y gellir eu hesemptio rhag cael eu rheoli o dan y Rheoliadau Adeiladu. Nid yw'n cynnwys yr holl fanylion nac amodau y gall fod angen eu bodloni. Ar gyfer y rhestr lawn a'r manylion dylech gyfeirio at Atodlen 2 i'r Rheoliadau.

Os ydych yn bwriadu ymgymryd â gwaith sy'n cael esemptio o'r Rheoliadau Adeiladu, fe'ch cynghorir i gael cadarnhad gan ddarparwr eich Gwasanaeth Rheoli Adeiladu. Bydd y cadarnhad hwn yn eich helpu os gwneir ymholiadau mewn perthynas â'r gwaith hwn yn ddiweddarach. Ymholiadau cyfreithwyr neu ymholiadau ynghylch taliadau tir lleol yw'r rhain fel arfer, pan fydd yr eiddo'n mynd drwy'r broses werthu.

## ATODLEN 2 a Rheoliad 9 – Adeiladau a Gwaith sy'n Cael eu Hesemptio

### Dosbarth 1 – Adeiladau a reolir o dan ddeddfwriaeth arall

1.(1) Unrhyw adeilad lle mae ffrwydron yn cael eu storio neu eu gweithgynhyrchu o dan drwydded a roddwyd o dan Reoliadau Ffrwydron 2014 lle—

(a) mae'r adeilad cyfan yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gweithgynhyrchu neu storio ffrwydron, a naill ai;

(b) rhagnodir isafswm pellter gwahanu o fwy na 0 metr yn rhinwedd rheoliad 27(1) o'r Rheoliadau hynny ac Atodlen 5 iddynt; neu

(c) rhagnodir isafswm pellter gwahanu o 0 metr yn rhinwedd y darpariaethau y cyfeirir atynt ym mharagraff (b) ac roedd rheoliad 13(3) o'r Rheoliadau hynny'n ei gwneud yn ofynnol cael cydsyniad yr awdurdod lleol, neu byddai hynny wedi bod yn ofynnol oni bai am Reoliad 13(4)(b), (c), (d), (e), (f) neu (g) o'r Rheoliadau hynny.

(2) Os mai dim ond rhan o adeilad yn cael ei defnyddio i weithgynhyrchu neu storio ffrwydron o dan drwydded a roddwyd o dan Reoliadau Ffrwydron 2014 ac—

(a) rhagnodir isafswm pellter gwahanu o fwy na 0 metr yn rhinwedd rheoliad 27(1) o'r Rheoliadau hynny ac Atodlen 5 iddynt; neu

(b) rhagnodir isafswm pellter gwahanu o 0 metr yn rhinwedd y darpariaethau y cyfeirir atynt ym mharagraff (a) ac roedd rheoliad 13(3) o'r Rheoliadau hynny'n ei gwneud yn ofynnol cael cydsyniad yr awdurdod lleol, neu byddai wedi bod yn ofynnol gwneud hynny oni bai am Reoliad 13(4)(b), (c), (d), (e), (f) neu (g) o'r Rheoliadau hynny, y rhan honno o'r adeilad lle mae'r drwydded yn nodi y gellir gweithgynhyrchu neu storio ffrwydron.

2. Unrhyw adeilad (ac eithrio adeilad sy'n cynnwys tŷ annedd neu adeilad a ddefnyddir fel swyddfa neu lety ffreutur) a godwyd ar safle lle mae trwydded o dan Ddeddf Gosodiadau Niwclear 1965 mewn grym ar y pryd.

3. Adeilad a gynhwysir yn y rhestr o henebion a gynhelir o dan adran 1 o Ddeddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979, neu o dan adran 3 o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023.

### Dosbarth 2 – Adeiladau nad ydynt yn cael eu mynychu gan bobl

1. Yn ddarostyngedig i baragraff 2, adeilad ar wahân—

   (a) lle nad yw pobl yn mynd fel arfer; neu

   (b) nad yw pobl ond yn mynd i mewn iddo o bryd i'w gilydd, a hynny dim ond at ddibenion archwilio neu gynnal a chadw offer neu beiriannau sefydlog.

2. Nid yw'r disgrifiad o adeiladau ym mharagraff 1 yn cynnwys adeilad lle mae unrhyw bwynt o'r adeilad yn llai nag un gwaith a hanner ei uchder o—

   (a) unrhyw bwynt o adeilad lle mae pobl yn mynd fel arfer, neu'n gallu mynd; neu

   (b) pwynt agosaf ffin cwrtil yr adeilad hwnnw, p'un bynnag yw'r agosaf.

### Dosbarth 3 – Tai gwydr ac adeiladau amaethyddol

1. Yn ddarostyngedig i baragraff 3, tŷ gwydr.

2. Adeilad a ddefnyddir, yn ddarostyngedig i baragraff 3, ar gyfer amaethyddiaeth, neu adeilad a ddefnyddir yn bennaf ar gyfer cadw anifeiliaid, ar yr amod ym mhob achos—

   (a) na ddefnyddir unrhyw ran o'r adeilad fel tŷ annedd;

   (b) nad oes unrhyw bwynt o'r adeilad yn llai nag un gwaith a hanner ei uchder o unrhyw bwynt mewn adeilad sy'n cynnwys llety cysgu; a

   (c) bod gan yr adeilad allanfa dân nad yw'n fwy na 30 metr o unrhyw bwynt yn yr adeilad.

3. Nid yw'r disgrifiadau o adeiladau ym mharagraffau 1 a 2 yn cynnwys tŷ gwydr nac adeilad a ddefnyddir ar gyfer amaethyddiaeth os mai ei brif ddiben yw manwerthu, pacio neu arddangos.

4. Ym mharagraff 2, mae 'amaethyddiaeth' yn cynnwys garddwriaeth, tyfu ffrwythau, tyfu planhigion ar gyfer hadau a ffermio pysgod.

### Dosbarth 4 – Adeiladau dros dro

Adeilad na fwriedir iddo aros lle y codwyd ef am fwy na 28 diwrnod.

### Dosbarth 5 – Adeiladau atodol

1. Adeilad ar safle y bwriedir ei ddefnyddio dim ond mewn perthynas â gwerthu adeiladau neu blotiau adeiladu ar y safle hwnnw.

2. Adeilad ar safle gwaith adeiladu neu beirianneg sifil y bwriedir ei ddefnyddio dim ond yn ystod y gwaith hwnnw ac nad yw'n cynnwys llety cysgu.

3. Adeilad nad yw'n cynnwys annedd neu adeilad sy'n cael ei ddefnyddio fel swyddfa neu ystafell ddangos, a godir mewn cysylltiad â mwynglawdd neu chwarel ar safle un o'r rheini.

### Dosbarth 6 – Adeiladau bach ar wahân

1. Adeilad unllawr ar wahân, sydd ag arwynebedd llawr nad yw'n fwy na 30m$^2$, nad yw'n cynnwys llety cysgu ac sy'n adeilad lle—

   (a) nad oes unrhyw bwynt yn llai nag un metr o ffin ei gwrtil; neu

   (b) sydd wedi'i adeiladu i raddau helaeth o ddeunydd nad yw'n hylosg.

2. Adeilad ar wahân a gynlluniwyd ac a fwriadwyd i gysgodi pobl rhag effeithiau arfau niwclear, cemegol neu gonfensiynol, ac nas defnyddir at unrhyw ddiben arall, os—

   (a) nad yw arwynebedd ei lawr yn fwy na 30m$^2$; a

   (b) nad yw'r cloddio ar gyfer yr adeilad yn agosach at unrhyw ran agored o adeilad neu strwythur arall na phellter sy'n cyfateb i ddyfnder y cloddio plws un metr.

3. Adeilad ar wahân nad yw'n cynnwys llety cysgu, sydd ag arwynebedd llawr nad yw'n fwy na 15m$^2$.

### Dosbarth 7 – Estyniadau

Estyn adeilad drwy ychwanegu ar lefel y ddaear:

(a) ystafell wydr, cyntedd, iard wedi'i gorchuddio neu ffordd wedi'i gorchuddio; neu

(b) porth ceir sydd ar agor ar o leiaf dwy ochr;

lle nad yw arwynebedd llawr yr estyniad hwnnw yn fwy na 30m$^2$, ar yr amod bod y gwydr, yn achos ystafell wydr neu gyntedd wedi eu gwydro'n gyfan gwbl neu'n rhannol, yn bodloni gofynion Rhan N, 'Gwydr (diogelwch o ran trawiad, agor a glanhau)'.

Fodd bynnag, **DIM OND** os **NAD OES system wresogi sefydlog** wedi'i gosod ynddo neu os **NAD yw system wresogi sefydlog yr eiddo presennol yn cael ei hymestyn iddi, AC mae'n parhau i fod ar wahân yn thermol** i'r eiddo presennol (gweler Dogfen Gymeradwy L: cyfrol 1).

Bydd angen i unrhyw osodiad trydanol sefydlog mewn ystafell wydr neu gyntedd gydymffurfio ag unrhyw ofynion perthnasol Rhan P 'Diogelwch trydanol'.

# Atodiad B: Ffynonellau gwybodaeth

Gallwch ddysgu mwy gan:

- Dod o hyd i gorff rheoli adeiladu (rheolaeth adeiladu llywodraeth lleol a chymeradwywyr cofrestredig rheolaeth adeiladu)
- Cynlluniau personau cymwys/Gosodwyr cofrestredig
- Gwaith adeiladu: cynlluniau person cymwys | LLYW.CYMRU
- Personau cymwys/Cynlluniau gosodwr cofrestredig
- www.llyw.cymru/rheoliadau-adeiladu
- www.llyw.cymru/caniatad-cynllunio
- Radon mewn cartrefi ac adeiladau | LLYW.CYMRU
- Canllaw deiliad tŷ i systemau chwistrellu | LLYW.CYMRU

**Deunyddiau Darllen Am Ddim**

Canllaw i Benderfyniadau ac Apeliadau

Deddf Waliau Cydrannol etc. 1996 – Llyfryn Esboniadol

Eich Waliau Gardd, Gwell bod yn DDIOGEL

Atal waliau cerrig sy'n sefyll o'u rhan eu hunain rhag cwympo

Gall y cyhoeddiadau uchod newid.